# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 11.04.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr E.M. Jones ac Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), L.Alun Evans (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd) a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Yr Heddlu); Y Cwnstabl Mike Humphreys
**Ymgeiswyr** : Mr D. Maguire a Mr P Houghton (Deilyddion trwydded gwesty'r Lion, Abermaw)
Mr John Moriarty (cyfreithiwr ar ran perchnogion y Lion, Abermaw)
**Gwrthwynebwyr:** Mr Glenn Fisher; Mrs Polly Peters; Mr P. Newitt; Mr T. Lang: Mr Martin Jones

**Gohirio -** bu'n rhaid gohirio dechrau'r cyfarfod tan 12.30pm, trwy gytundeb, tra'n disgwyl am swyddogion a gwrthwynebwyr a fethont gyrraedd mewn pryd.

## 1. CAIS AM DRWYDDED I WESTY'R LION, ABERMAW

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd, i adolygu Trwydded Eiddo gwesty'r Lion, Abermaw, ar sail Atal Niwsans Cyhoeddus.

Cyflwynwyd adroddiad gan Adran Iechyd yr Amgylchedd yn nodi manylion y cwynion a dderbyniwyd, a chanlyniadau'r profion monitro swn a wnaethpwyd o ganlyniad i'r cwynion hyn. Wrth gefnogi ei sylwadau, adroddodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd bod y cais yn deillio o nifer o gwynion gan drigolion lleol am lefel y swn a gynhyrchir yn gyson yn y gwesty, a'r methiant ar ran y rheolwyr i ymateb yn gadarnhaol i'r cwynion hyn. O ganlyniad i'r cwynion niferus, cynhaliwyd arbrawf mewn tŷ cyfagos i fesur y swn a chafwyd bod y lefel yn uwch na'r hyn a ganiateir yn ôl canllawiau Adain Iechyd yr Amgylchedd, ac felly yn torri un o amodau trwydded y Lion. Mae'r Swyddog yn argymell diddymu'r hawl i gynnal cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio ac unrhyw fodd o gynhyrchu cerddoriaeth oddi ar y Drwydded Eiddo, ac hefyd i wahardd gosod setiau teledu tu allan i'r adeilad.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
ii. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor;
iii. gwahoddwyd yr Heddlu i gefnogi eu sylwadau ysgrifenedig a rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ac aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau;
iv. gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi eu sylwadau
v. rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac i alw ar unrhyw dystion;
vi. gwahoddwyd aelodau'r is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd;
vii. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd; a
viii. rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd grynhoi yr achos.

Cafwyd tystiolaeth gan yr Heddlu yn cefnogi sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr. Adroddwyd ar wyth o achosion pan alwyd yr Heddlu i westy'r Lion o ganlyniad i ymladd, cynnwrf, anrhefn ac achosion o swn eithafol yn deillio o'r safle, tri o'r rhain yn deillio o'r tu fewn i'r adeilad a phump o'r tu allan. Ychwanegwyd bod nifer o'r trigolion lleol wedi cwyno ar lafar i'r heddlu, a mwy o achosion o drosedd ac anrhefn wedi eu nodi ers cyhoeddi'r rhaglen.

Ar ran y gwrthwynebwyr, adroddwyd:

- bod y sefyllfa bresennol wedi cychwyn ers 2005 pan brynwyd y Lion gan y perchennog presennol ac er i'r trigolion lleol gwyno am y swn a'r anrhefn, ni chafwyd gwelliant.
- bod cwsmeriaid yn ymladd yn aml ar eu ffordd allan o ddisco a gynhelir yn rheolaidd yn y gwesty.
- y gosodwyd camerau cylch-cyfyng o gwmpas y dref ar ran y trigolion lleol oherwydd eu pryderon am ymddygiad rhai sy'n amharu ar yr heddwch.
- ar ran perchennog ty cyfagos sydd ar osod nad ydyw tenantiaid yn fodlon aros yn hir yn yr eiddo oherwydd y swn a'r anrhefn sy'n deillio o'r Lion.
- nad yw ffenestri dwbl yn cau'r swn allan yn ddigonol o eiddo cyferbyn a bod y perchnogion yn anhapus iawn bod eu plant yn clywed rhegfeydd o'r gwesty yn ystod adloniant.
- na chafwyd ymateb i gais i gau ffenestri rhwng yr eiddo a'r ty drws nesaf i'r gwesty pan mae adloniant ymlaen a bod lefel y swn yn annerbyniol
- bod y twrw a'r anrhefn yn cael effaith ar fywyd personol a busnesau trigolion cyfagos
- bod cwsmeriaid sy'n ymhel o gwmpas dau deledu tu allan i'r adeilad yn ychwanegu at y broblem swn

Wrth ymateb i'r sylwadau, adroddodd y cyfreithiwr ar ran trwyddedai gwesty'r Lion:

- na fu iddynt dderbyn cwynion yn uniongyrchol gan y trigolion lleol
- nad yw'r swn i gyd yn deillio o westy'r Lion
- nad yw asesiad o lefel swn a gynhaliwyd ar ran perchnogion y Lion yn cytuno â mesuriadau swyddogion Iechyd yr Amgylchedd. (Cyflwynwyd canlyniad yr asesiad ar ffurf adroddiad yn y cyfarfod, ond rhy hwyr i'w ystyried yn fanwl.)
- eu bod yn dadlau â'r gwyn ar sail 'niwsans cyhoeddus' gan mai cwynion personol a gyflwynwyd
- eu bod yn derbyn bod achos dros rhai cwynion a'u bod yn awyddus i geisio datrys unrhyw broblem

Wrth grynhoi yr achos, adroddodd swyddog Iechyd yr Amgylchedd:

- bod problemau yn deillio o'r safle ers pum mlynedd, ond fawr o welliant er gwaethaf y cwynion i'r perchnogion
- y gwelwyd tystiolaeth na chadwyd amodau'r drwydded ynglyn â chau'r drysau a chyflogi swyddogion ar y drws yn ystod adloniant

Gadawodd yr ymgeisydd, deilyddion trwydded gwesty'r Lion a'r swyddogion Trwyddedu y cyfarfod, a thrafodwyd y cais gan yr Is-bwyllgor o ystyried tystiolaeth yr Heddlu a'r trigolion lleol ac er mwyn glynu at yr egwyddorion canlynol:

a) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;
b) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
c) Amddiffyn Plant rhag Niwed.

**PENDERFYNWYD ychwanegu'r amodau canlynol i Drwydded Eiddo gwesty'r Lion, Abermaw:**

**i) Dim caniatau gosod teledu tu allan i'r adeilad**
**ii) Dim caniatau cerddoriaeth tu allan i'r adeilad**

**iii) Caniatau cerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi ei recordio, perfformiadau dawns, gwneud cerddoriaeth (sef adrannau e,f,g ac i yn y drwydded) yn ystod yr oriau canlynol yn unig: Dydd Llun i Ddydd Sul: 11.00 i 23.00)**
**iv) Gosod offer rheoli swn lle bynnag mae adloniant ymlaen, i'w osod gan Adain Iechyd yr Amgylchedd**
**v) Gosod drws ychwanegol rhwng ystafell lle caniateir dawnsio â'r tu allan**
**vi) Cadw ffenestri'r ystafell Pool ar gau**
**vii) Cau'r agoriad (sef yr 'hatch') rhwng yr adeilad a'r Ardd Gwrw am 22.00**
**viii) Cadw'r byrddau a'r cadeiriau o'r tu allan erbyn 22.00**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr i'r ymgeisydd o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor

Dechreuodd y cyfarfod am 12.30pm a daeth i ben am 2.35pm